RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
12/2019
DYDDIAD CYHOEDDI:
14/03/2019

# Dealltwriaeth y cyhoedd o ddatganoli trethi:

## Adroddiad sylfaenol

© Hawlfraint y Goron
ISBN digidol 978-1-78964-950-5

**Dealltwriaeth y cyhoedd o ddatganoli trethi:**

Adroddiad sylfaenol

Nerys Owens ac Ian Jones

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, Llywodraeth Cymru

Adroddiad Ymchwil Llawn: Owens, N. a Jones, I. (2019). *Dealltwriaeth y cyhoedd o ddatganoli trethi: Adroddiad sylfaenol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 12/2019.>
Ar gael yn: https://gov.wales/statistics-and-research/public-understanding-tax-devolution/?lang=cy

Safbwyntiau'r ymchwilwyr sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn, ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:

Nerys Owens
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 03000 258586
E-bost: nerys.owens@llyw.cymru

**Cynnwys**


Rhestr o’r tablau ..... 2
Rhestr o’r ffigurau ..... 2
1. Cyflwyniad ..... 4
2. Rheolaeth dros drethi sy'n cael eu talu yng Nghymru ..... 7
3. Ymwybyddiaeth o wahanol drethi ..... 9
4. Datganoli trethi ..... 10
5. Lefel y rheolaeth ymddangosiadol dros drethi penodol ..... 14
6. Treth incwm ..... 15
7. Treth ar Werth ..... 20
8. Y Dreth Gyngor ..... 22
9. Treth Stamp ..... 24
10. Treth ar alcohol ..... 27
11. Treth ar deithiau awyr ..... 30
12. Treth ar y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi yng Nghymru ..... 32
13. Cysylltiad rhwng refeniw trethi a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ..... 34
14. Atodiad A: Methodoleg ..... 36
15. Atodiad B: Holiaduron ..... 40
16. Atodiad C: Gwybodaeth gefndirol am drethi'r DU a threthi a ddatganolwyd i Gymru ..... 42
17. Cyfeiriadau ..... 45

## Rhestr o'r tablau

Tabl 1: A ydych chi'n ymwybodol fod Llywodraeth Cymru eisoes yn gosod rhai trethi yng Nghymru, sef y Dreth Trafodiadau Tir (Treth Dir y Dreth Stamp yn Lloegr) a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi (Treth Dirlenwi yn Lloegr)? ..... 13
Tabl 2: A ydych chi'n ymwybodol o'r ffaith y bydd Llywodraeth Cymru yn gallu gosod cyfraddau treth incwm gwahanol yng Nghymru o 6 Ebrill 2019? ..... 17
Tabl 3: Sut wnaethoch chi ddod yn ymwybodol o'r ffaith y bydd Llywodraeth Cymru yn gallu gosod cyfraddau treth incwm gwahanol? ..... 19
Tabl 4: Faint o'r arian a godir o drethi yng Nghymru y byddech chi'n disgwyl ei weld yn mynd tuag at wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru (fel ysgolion, ysbytai a gwasanaethau eraill)? ..... 34
Tabl A.1: Diffiniad o ranbarthau ..... 38
Tabl A.2: Diffiniad o gyrhaeddiad addysgol ..... 39
Tabl A.3: Diffiniad o grwpiau economaidd-gymdeithasol ..... 39

## Rhestr o'r ffigurau

Ffigur 1: Pwy sydd â'r rheolaeth fwyaf dros y trethi rydych chi'n eu talu? ..... 7
Ffigur 2: Cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd 'ddim yn gwybod' i'r cwestiwn ynghylch pwy sydd â'r rheolaeth fwyaf dros y trethi maen nhw'n eu talu yn ôl rhanbarth (%) ..... 8
Ffigur 3: Pa drethi ydych chi wedi clywed amdanyn nhw? ..... 9
Ffigur 4: Pa rai o'r trethi yma ydych chi'n credu fydd yn dod o dan reolaeth Llywodraeth Cymru o fis Ebrill 2018 ymlaen? ..... 10
Ffigur 5: Cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd yn gywir y byddai'r Dreth Stamp yn dod o dan reolaeth Llywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2018 yn ôl rhanbarth (%) ..... 11
Ffigur 6: Cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd yn gywir y byddai'r dreth ar y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi'n dod o dan reolaeth Llywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2018 yn ôl rhanbarth (%) ..... 12
Ffigur 7: Ymwybyddiaeth o'r ffaith fod Llywodraeth Cymru eisoes yn gosod rhai trethi, yn ôl rhanbarth (%) ..... 13
Ffigur 8: Yng Nghymru, pwy ydych chi'n meddwl sydd â'r rheolaeth fwyaf ..... 15
Ffigur 9: Cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd yn gywir mai Llywodraeth y DU sydd â'r rheolaeth fwyaf dros lefel Treth Incwm yng Nghymru, yn ôl rhanbarth (%) ..... 16

Ffigur 10: Faint o reolaeth ydych chi'n meddwl sydd gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd dros lefelau treth incwm? ....... 17
Ffigur 11:Ymwybyddiaeth o'r ffaith y bydd Llywodraeth Cymru yn gallu gosod cyfraddau treth incwm gwahanol yng Nghymru o fis Ebrill 2019 ymlaen, yn ôl rhanbarth (%) . 18
Ffigur 12: Yng Nghymru, pwy ydych chi'n meddwl sydd â'r rheolaeth fwyaf dros lefelau TAW? ....... 20
Ffigur 13: Faint o reolaeth ydych chi'n meddwl sydd gan Lywodraeth Cymru ....... 21
Ffigur 14: Yng Nghymru, pwy ydych chi'n meddwl sydd â'r rheolaeth fwyaf dros lefelau'r Dreth Gyngor? ....... 22
Ffigur 15: Faint o reolaeth ydych chi'n meddwl sydd gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd dros y Dreth Gyngor? ....... 23
Ffigur 16: Yng Nghymru, pwy ydych chi'n meddwl sydd â'r rheolaeth fwyaf dros lefelau'r Dreth Stamp? ....... 24
Ffigur 17: Cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd yn gywir mai Llywodraeth y DU sydd â'r rheolaeth fwyaf dros lefel y Dreth Stamp yng Nghymru, yn ôl rhanbarth (%) ....... 25
Ffigur 18: Faint o reolaeth ydych chi'n meddwl sydd gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd dros y Dreth Stamp? ....... 26
Ffigur 19: Yng Nghymru, pwy ydych chi'n meddwl sydd â'r rheolaeth fwyaf dros lefelau'r dreth ar alcohol? ....... 27
Ffigur 20: Cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd yn gywir mai Llywodraeth y DU sydd â'r rheolaeth fwyaf dros lefelau'r dreth ar alcohol yng Nghymru, yn ôl rhanbarth (%) .. 28
Ffigur 21: Faint o reolaeth ydych chi'n meddwl sydd gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd dros dreth ar alcohol? ....... 29
Ffigur 22: Yng Nghymru, pwy ydych chi'n meddwl sydd â'r rheolaeth fwyaf dros lefelau'r dreth ar deithiau awyr? 30
Ffigur 23: Faint o reolaeth ydych chi'n meddwl sydd gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd dros dreth ar deithiau awyr o Gymru? ....... 31
Ffigur 24: Yng Nghymru, pwy ydych chi'n meddwl sydd â'r rheolaeth fwyaf dros lefelau'r dreth dirlenwi? ....... 32
Ffigur 25: Faint o reolaeth ydych chi'n meddwl sydd gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd dros dreth ar y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi yng Nghymru? ....... 33
Ffigur 26: Yn ymwybodol fod yr holl arian a godir o drethi yng Nghymru yn mynd tuag at wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru (%) ....... 35

# Cyflwyniad

## Cefndir

1.1 Erbyn mis Ebrill 2019, bydd Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn gyfrifol am amrediad o drethi yng Nghymru.[1] Mae'r rhain yn cynnwys:

- Treth Trafodiadau Tir (disodlodd hon Dreth Dir y Dreth Stamp ym mis Ebrill 2019);
- Treth Gwarediadau Tirlenwi (disodlodd hon y Dreth Dirlenwi ym mis Ebrill 2018); a
- Chyfraddau Dreth Incwm Cymru (wedi eu datganoli'n rhannol o fis Ebrill 2019 ymlaen).

1.2 Disgwylir i'r trethi hyn gyfrannu oddeutu £2.5 biliwn o arian yn flynyddol tuag at wasanaethau cyhoeddus Cymru (Ifan a Poole, 2018). Gyda'r dreth gyngor a chyfraddau annomestig, bydd oddeutu £5 biliwn yn cael ei godi bob blwyddyn yng Nghymru o refeniw trethi datganoledig a lleol o fis Ebrill 2019 ymlaen i'w wario ar wasanaethau cyhoeddus Cymru.

1.3 Mae Deddf Cymru 2014 hefyd yn rhoi'r pwerau i Lywodraeth Cymru greu trethi newydd mewn meysydd gallu datganoledig, yn unol â chymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol a Senedd y DU. Yn dilyn ymrwymiad Llywodraeth Cymru yn ystod 2017[2] i ystyried yr achos ar gyfer trethi newydd a'r drafodaeth gyhoeddus ddilynol a sbardunwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ar y pryd, cyhoeddwyd rhestr fer o bedwar syniad ar gyfer trethi newydd, ochr yn ochr â drafft amlinellol o Gyllideb 2018-19 – treth ar dir gwag, ardoll gofal cymdeithasol, treth ar ddeunydd plastig untro a threth dwristiaeth. Mae Llywodraeth Cymru yn mynd ati i gyflawni rhaglen waith eang er mwyn datblygu'r blaenoriaethau treth newydd hyn. Gellir dod o hyd i ragor o fanylion yng Nghynllun Gwaith Polisi Trethi 2018.[3]

[1] Mae Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 yn rhoi'r pwerau i gasglu a rheoli trethi sydd wedi eu datganoli'n llawn i Gymru, a Deddf Cymru 2014 a Deddf Cymru 2017 yn darparu ar gyfer datganoliad rhannol y Dreth Incwm.

[2] Fel y nodwyd yng Nghynllun Gwaith Polisi Trethi (2017) Llywodraeth Cymru

[3] Fel y nodwyd yng Nghynllun Gwaith Polisi Trethi (2018a) Llywodraeth Cymru

1.4 Bu Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol a sefydliadau treth a dargedwyd yn ystod 2017 er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r ffaith fod y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi eu datganoli. Yn ystod 2018, parhaodd Awdurdod Cyllid Cymru (y corff a gafodd ei sefydlu i gasglu'r trethi) â'r gwaith cyfathrebu ac ymgysylltu hwn. Yn dilyn cyhoeddiad y gyllideb ddrafft ym mis Hydref 2018, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgyrch cyfryngau cymdeithasol, yn union ar ôl i'r cyfraddau gael eu cynnig ar gyfer cyfraddau treth incwm Cymru. Nod yr ymgyrch hwn yw meithrin cysylltiad rhwng yr arian a enillir ac a godir yng Nghymru drwy drethi yng Nghymru, a sut mae'n cael ei wario ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r ymgyrch yn parhau gydag ail gyfnod ar ddechrau 2019, ochr yn ochr â gwaith ymgysylltu gyda rhanddeiliaid a phartneriaid.

1.5 Er mwyn helpu i fonitro effeithiolrwydd yr ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth a lle i dargedu'r ymgysylltu, mae angen gwybodaeth am ymwybyddiaeth y cyhoedd o ddatganoli trethi yng Nghymru a'u dealltwriaeth o hyn. Er mwyn diwallu'r anghenion tystiolaeth hyn, gwnaeth Llywodraeth Cymru gynnwys cwestiynau yn Arolwg Cenedlaethol Cymru (2016-17 a 2017-18) a chomisiynodd gwestiynau ychwanegol yng ngham mis Mehefin 2018 o Arolwg Omnibws Cymru (a gynhaliwyd gan Beaufort Research Ltd).

1.6 Nod y cwestiynau hyn yw:

- nodi pa drethi y mae'r ymatebwyr wedi clywed amdanynt a phwy, ym marn yr ymatebydd, sydd â'r rheolaeth fwyaf dros osod lefelau'r trethi hyn;
- pennu faint o reolaeth sydd gan Lywodraeth Cymru dros osod lefelau'r trethi hyn, yn nhyb yr ymatebwyr;
- pennu pa drethi fydd yn cael eu rheoli gan Lywodraeth Cymru, yn nhyb yr ymatebwyr; a
- deall i ba raddau y mae'r ymatebwyr yn credu y bydd y refeniw a godir o drethi Cymru yn mynd tuag at wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

1.7 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau sylfaenol y gellir eu defnyddio fel modd i fonitro newidiadau mewn ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o ddatganoli trethi yng Nghymru. Bydd y dadansoddiad hefyd yn cael ei ddefnyddio i

lywio sut y caiff cyfathrebiadau eu targedu ymhlith gwahanol grwpiau o'r boblogaeth.

### Ynghylch yr arolygon

1.8 Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn cynnwys cyfweliadau wyneb yn wyneb â sampl gynrychiadol o thua 11,000 o oedolion 16 oed ac yn hŷn bob blwyddyn. Mae'r arolwg yn ymdrin ag amrywiaeth eang o byncia, gan ganolbwyntio ar lesiant a barn pobl ar wasanaethau cyhoeddus. Gofynnwyd cwestiynau ar ddatganoli trethi i is-sampl o 2,544 o ymatebwyr yn 2016-17 ac 1,856 o ymatebwyr yn 2017-18.

1.9 Mae Arolwg Omnibws Cymru yn cynnwys cyfweliadau wyneb yn wyneb â sampl gynrychiadol o isafswm o 1,000 o oedolion 16 oed ac yn hŷn sy'n preswylio yng Nghymru. Cynhaliwyd y gwaith maes ar gyfer cam mis Mehefin 2018 rhwng 4 a 17 Mehefin 2018, a chwblhawyd cyfanswm o 1,006 o gyfweliadau.

### Gwahaniaethau sylweddol

1.10 Cafodd profion eu cynnal yn y dadansoddiad ar arwyddocâd ystadegol y data er mwyn hwyluso'r gwaith o ddehongli'r canlyniadau a llywio'r ymgyrch cyfathrebu. Pan ddisgrifir y gwahaniaeth rhwng dau is-grŵp fel 'arwyddocaol' yn yr adroddiad hwn, mae'n golygu bod y debygoliaeth o gael gafael ar y canfyddiad hwn ar hap yn llai nag un mewn 20 – h.y. mae'n debygol o ddangos perthynas wirioneddol yn y boblogaeth.[4]

1.11 Mae rhagor o wybodaeth am ddulliau arolygu, ynghyd â diffiniadau o'r rhanbarthau, cyrhaeddiad addysgol a'r dosbarthiadau grŵp economaidd-gymdeithasol a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn, wedi ei chynnwys yn Atodiad A. Mae gwybodaeth am yr holiaduron wedi ei hatodi yn Atodiad B. Mae gwybodaeth gefndirol am drethi'r DU a threthi sydd wedi eu datganoli i Gymru wedi ei hatodi yn Atodiad C.

---


[4] Pan gaiff data arolwg ei brofi am arwyddocâd ystadegol, cymerir yn ganiataol fod y sampl a gyflawnir yn cynrychioli hapsampl o'r boblogaeth berthnasol. Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn defnyddio hapsamplu, ac Arolwg Omnibws Cymru yn defnyddio samplu cwota cyfrannol. Mewn gwirionedd, ni ellir pennu arwyddocâd ystadegol gwirioneddol ar gyfer y dull samplu olaf. Felly, mae gwahaniaethau 'arwyddocaol' sy'n seiliedig ar ddata o Arolwg Omnibws Cymru yn cyfeirio at wahaniaeth arwyddocaol ffug-ystadegol ar 95 y cant o'r lefel hyder.

## 2. Rheolaeth dros drethi sy'n cael eu talu yng Nghymru

2.1 Gofynnwyd i ymatebwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru pwy, yn eu barn nhw, oedd â'r rheolaeth fwyaf dros y trethi yr oeddent yn eu talu yng Nghymru, gan ddewis o restr o opsiynau – cynghorau lleol; Llywodraeth Cymru; Llywodraeth y DU; a 'ddim yn gwybod'.

2.2 Yn nwy flynedd yr arolwg, dywedodd dwy ran o dair o'r ymatebwyr mai Llywodraeth y DU oedd â'r rheolaeth fwyaf dros drethi, a dywedodd oddeutu un o bob deg mai Llywodraeth Cymru oedd â'r rheolaeth fwyaf (Ffigur 1).

**Ffigur 1: Pwy sydd â'r rheolaeth fwyaf dros y trethi rydych chi'n eu talu?**





Sampl: Pob ymatebydd (2,544 yn 2016-17 ac 1,856 yn 2017-18).

2.3 Yn 2017-18, roedd gwahaniaethau arwyddocaol yng nghyfran yr ymatebwyr a atebodd 'ddim yn gwybod' i'r cwestiwn am bwy sydd â'r rheolaeth fwyaf dros y trethi maen nhw'n eu talu yn ôl oedran, cyrhaeddiad addysgol a rhanbarth. Roedd cyfran y rhai a oedd yn dweud 'ddim yn gwybod' i'r cwestiwn ynghylch pwy sydd â'r rheolaeth fwyaf dros y trethi maen nhw'n eu talu ar ei huchaf ymhlith yr ymatebwyr canlynol:

- pobl rhwng 16 a 34 oed (24 y cant), o'u cymharu â 14 y cant o bobl 35 oed ac yn hŷn;

- heb gymwysterau (27 y cant), o'u cymharu â 19 y cant o'r ymatebwyr â chymhwyster is na gradd ac 11 y cant o ymatebwyr ar lefel radd neu'n uwch; ac
- yn byw ym Mae Abertawe a'r Cymoedd (21 y cant yn y ddau le), gyda'r gyfran isaf (13 y cant) yng nghanolbarth a gorllewin Cymru (Ffigur 2).

**Ffigur 2**: **Cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd 'ddim yn gwybod' i'r cwestiwn ynghylch pwy sydd â'r rheolaeth fwyaf dros y trethi maen nhw'n eu talu yn ôl rhanbarth (%)**





Sampl: Pob ymatebydd (1,856 yn 2017-18).

## 3. Ymwybyddiaeth o wahanol drethi

3.1 Gofynnwyd i ymatebwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru am eu hymwybyddiaeth o drethi amrywiol. Roedd bron pob un o'r ymatebwyr wedi clywed am y Dreth Incwm, Treth ar Werth (TAW) a'r Dreth Gyngor. Roedd oddeutu wyth o bob deg ohonynt wedi clywed am Dreth Stamp a threth ar alcohol.

3.2 Mewn cymhariaeth, roedd llai na hanner yr ymatebwyr wedi clywed am dreth ar deithiau awyr o Gymru a threth ar y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi yn 2017-18 (Ffigur 3).

**Ffigur 3: Pa drethi ydych chi wedi clywed amdanyn nhw?**




Sampl: Pob ymatebydd (2,544 yn 2016-17 ac 1,856 yn 2017-18).

## 4. Datganoli trethi


### Arolwg Cenedlaethol Cymru

4.1 Gofynnwyd i ymatebwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru[5] pa drethi yr oeddent yn credu fyddai'n cael eu datganoli i Gymru o fis Ebrill 2018.

4.2 Dywedodd oddeutu traean ohonynt yn gywir y byddai'r Dreth Stamp[6] yn dod o dan reolaeth Llywodraeth Cymru, a dywedodd oddeutu pedwar o bob deg yn gywir y byddai'r dreth ar wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi'n[7] dod o dan ei rheolaeth (Ffigur 4).

4.3 Gwnaeth cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd y byddai'r ddwy dreth hyn yn dod o dan reolaeth Llywodraeth Cymru ostwng pum pwynt canran rhwng 2016-17 a 2018-19, ond nid oedd y newidiadau hyn yn arwyddocaol yn ystadegol.

**Ffigur 4: Pa rai o'r trethi yma ydych chi'n credu fydd yn dod o dan reolaeth Llywodraeth Cymru o fis Ebrill 2018 ymlaen?**





Sampl: Ymatebwyr a oedd wedi clywed am o leiaf un o'r trethi a nodwyd (2,487 yn 2016-17 ac 1,796 yn 2017-18).

[5] Heb gynnwys nifer bychan o ymatebwyr nad oeddent wedi clywed am yr un o'r trethi a gafodd eu crybwyll.
[6] Gelwir hon yn Dreth Trafodiadau Tir yng Nghymru bellach.
[7] Gelwir hon yn Dreth Gwarediadau Tirlenwi yng Nghymru bellach.

4.4 Yn 2017-18, gwelwyd gwahaniaethau arwyddocaol yng nghyfran yr ymatebwyr a ddywedodd yn gywir y byddai'r Dreth Stamp yn dod o dan reolaeth Llywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2018 yn ôl oedran, cyrhaeddiad addysgol a rhanbarth. Roedd y gyfran a ddywedodd y byddai'r Dreth Stamp yn dod o dan reolaeth Llywodraeth Cymru ar ei huchaf ymhlith y rhai hynny:

- rhwng 35 a 54 oed (38 y cant), o'u cymharu â 28 y cant o bobl rhwng 16 a 34 oed a 26 y cant o bobl 55+ oed;
- gyda gradd neu gymhwyster uwch (39 y cant), o'u cymharu â 27 y cant o bobl â chymwysterau is na lefel radd a 20 y cant o bobl heb gymwysterau; ac
- sy'n byw yng nghanolbarth a gorllewin Cymru (35 y cant), gyda'r gyfran isaf (25 y cant) yn y Cymoedd (Ffigur 5).

**Ffigur 5: Cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd yn gywir y byddai'r Dreth Stamp yn dod o dan reolaeth Llywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2018 yn ôl rhanbarth (%)**





Sampl: Ymatebwyr a oedd wedi clywed am o leiaf un o'r trethi a nodwyd (1,796 yn 2017-18).

4.5 Yn 2017-18, gwelwyd gwahaniaethau arwyddocaol yng nghyfran yr ymatebwyr a ddywedodd yn gywir y byddai treth ar wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi'n dod o dan reolaeth Llywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2018 yn ôl oedran, cyrhaeddiad addysgol a rhanbarth. Roedd y gyfran a ddywedodd y byddai'r dreth ar wastraff a

anfonir i safleoedd tirlenwi yn dod o dan reolaeth Llywodraeth Cymru ar ei huchaf ymhlith ymatebwyr:

- rhwng 35 a 54 oed (47 y cant), o'u cymharu â 34 y cant o bobl rhwng 16 a 34 oed a 37 y cant o bobl 55+ oed;
- gyda gradd neu gymhwyster uwch (47 y cant), o'u cymharu â 40 y cant o bobl â chymwysterau is na lefel radd a 22 y cant o bobl heb gymwysterau; ac
- sy'n byw yng Nghaerdydd a de-ddwyrain Cymru (45 y cant), a chanolbarth a gorllewin Cymru (44 y cant), gyda'r gyfran isaf ym Mae Abertawe (Ffigur 6).

**Ffigur 6: Cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd yn gywir y byddai'r dreth ar y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi'n dod o dan reolaeth Llywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2018 yn ôl rhanbarth (%)**




Sampl: Ymatebwyr a oedd wedi clywed am o leiaf un o'r trethi a nodwyd (1,796 yn 2017-18).

### Arolwg Omnibws Cymru

4.6 Yn dilyn datganoli'r trethi Trafodiadau Tir a Thirlenwi ym mis Ebrill 2018, gofynnwyd i ymatebwyr cam mis Mehefin 2018 Arolwg Omnibws Cymru a oeddent yn ymwybodol fod Llywodraeth Cymru eisoes yn gosod rhai trethi yng Nghymru.

4.7 Dywedodd llai na phedwar o bob deg o'r ymatebwyr eu bod yn ymwybodol fod Llywodraeth Cymru eisoes yn gosod rhai trethi yng Nghymru (Tabl 1).

**Tabl 1: A ydych chi'n ymwybodol fod Llywodraeth Cymru eisoes yn gosod rhai trethi yng Nghymru, sef y Dreth Trafodiadau Tir (Treth Dir y Dreth Stamp yn Lloegr) a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi (Treth Dirlenwi yn Lloegr)?**


| Ymateb | Canran o ymatebwyr [a] |
|---|---|
| Ydw | 38 |
| Nac ydw | 61 |

Sampl: Pob ymatebydd (1,006 ym mis Mehefin 2018)
(a) Mae'n bosibl na fydd y cyfanswm yn dod i union 100 y cant oherwydd talgrynnu.

4.8 Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn yr ymwybyddiaeth fod Llywodraeth Cymru eisoes yn gosod rhai trethi yn ôl oedran, grŵp economaidd-gymdeithasol a rhanbarth. Roedd yr ymwybyddiaeth yn uwch ymhlith ymatebwyr:

- 55+ oed, gyda 43 y cant o'r rhain yn ymwybodol, o'u cymharu â 38 y cant o bobl rhwng 35 a 54 oed a 33 y cant o bobl rhwng 16 a 34 oed;
- o grwpiau economaidd-gymdeithasol ABC1, gydag oddeutu hanner (49 y cant) o'r rhain yn ymwybodol, o'u cymharu â thros chwarter (28 y cant) o ymatebwyr C2DE; ac
- sy'n byw yng nghanolbarth a gorllewin Cymru (49 y cant) neu yng Nghaerdydd a de-ddwyrain Cymru (48 y cant), gyda'r gyfran isaf (27 y cant) yn y Cymoedd (Ffigur 7).

**Ffigur 7: Ymwybyddiaeth o'r ffaith fod Llywodraeth Cymru eisoes yn gosod rhai trethi, yn ôl rhanbarth (%)**




Sampl: Pob ymatebydd (1,006 ym mis Mehefin 2018)

## 5. Lefel y rheolaeth ymddangosiadol dros drethi penodol

5.1 Roedd Arolwg Cenedlaethol Cymru yn cynnwys cwestiynau a oedd yn ceisio pennu barn ymatebwyr ar bwy oedd â'r rheolaeth fwyaf dros drethi amrywiol (cynghorau lleol, Llywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU), a faint o reolaeth sydd gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd.

5.2 Gofynnwyd y cwestiynau hyn ynghylch y Dreth Incwm, TAW, y Dreth Gyngor, y Dreth Stamp, treth ar alcohol, treth ar deithiau awyr a threth ar y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi, a chyflwynir y rhain yn eu tro isod. Cafodd cwestiynau atodol am ddatganoliad rhannol y dreth incwm hefyd eu cynnwys yng ngham mis Mehefin 2018 Arolwg Omnibws Cymru.


## 6. Treth incwm

*Bydd wedi ei datganoli'n rhannol o fis Ebrill 2019*

### Arolwg Cenedlaethol Cymru

6.1 Yn nwy mlynedd Arolwg Cenedlaethol Cymru, dywedodd oddeutu saith o bob deg o'r ymatebwyr yn gywir mai Llywodraeth y DU sydd â'r rheolaeth fwyaf dros osod lefelau'r Dreth Incwm yng Nghymru (Ffigur 8). Bwriedir datganoli'r dreth hon yn rhannol o fis Ebrill 2019 (gweler Atodiad C am ragor o wybodaeth).

**Ffigur 8: Yng Nghymru, pwy ydych chi'n meddwl sydd â'r rheolaeth fwyaf dros lefelau Treth Incwm?**





Sampl: Ymatebwyr a oedd wedi clywed am y Dreth Incwm (2,436 yn 2016-17 ac 1,754 yn 2017-18).

6.2 Yn 2017-18, roedd gwahaniaethau arwyddocaol yng nghyfran yr ymatebwyr a ddywedodd yn gywir mai Llywodraeth y DU sydd â'r rheolaeth fwyaf dros lefelau Treth Incwm yng Nghymru yn ôl oedran, cyrhaeddiad addysgol a rhanbarth. Roedd y gyfran a ddywedodd yn gywir mai Llywodraeth y DU sydd â'r rheolaeth fwyaf dros lefel Treth Incwm yng Nghymru yn uwch ymhlith ymatebwyr:

- rhwng 35 a 54 oed (77 y cant) a 55+ oed (75 y cant), o'u cymharu â 61 y cant ymhlith pobl rhwng 16 a 34 oed;

- gyda gradd neu gymhwyster uwch (79 y cant), o'u cymharu â 68 y cant ar gyfer y rhai hynny â chymwysterau is na lefel radd, a 61 y cant ar gyfer y rhai hynny heb gymwysterau;  ac
- sy'n byw yng Nghaerdydd a de-ddwyrain Cymru (77 y cant), gyda'r gyfran isaf (65 y cant) yn y Cymoedd (Ffigur 9).


**Ffigur 9: Cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd yn gywir mai Llywodraeth y DU sydd â'r rheolaeth fwyaf dros lefel Treth Incwm yng Nghymru, yn ôl rhanbarth (%)**




Sampl: Ymatebwyr a oedd wedi clywed am y Dreth Incwm (1,754 yn 2017-18).

6.3 Yn nwy mlynedd yr arolwg, credai oddeutu traean o'r ymatebwyr fod gan Lywodraeth Cymru 'rywfaint' o reolaeth dros y dreth incwm yng Nghymru, a chredai canran fechan ohonynt fod ganddi reolaeth 'lwyr' (Ffigur 10).

**Ffigur 10: Faint o reolaeth ydych chi'n meddwl sydd gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd dros lefelau treth incwm?**




Sampl: Ymatebwyr a oedd wedi clywed am y Dreth Incwm (2,436 yn 2016-17 ac 1,754 yn 2017-18).

### Arolwg Omnibws Cymru

6.4 Gofynnwyd i ymatebwyr cam mis Mehefin 2018 Arolwg Omnibws Cymru a oeddent yn ymwybodol y bydd Llywodraeth Cymru yn gallu gosod cyfraddau treth incwm gwahanol yng Nghymru o 6 Ebrill 2019. Dywedodd oddeutu chwarter o'r ymatebwyr eu bod yn ymwybodol o hyn (Tabl 2).

**Tabl 2: A ydych chi'n ymwybodol o'r ffaith y bydd Llywodraeth Cymru yn gallu gosod cyfraddau treth incwm gwahanol yng Nghymru o 6 Ebrill 2019?**

| **Ymateb** | **Canran o ymatebwyr [a]** |
|---|---:|
| Ydw | 24 |
| Nac ydw | 76 |
| Ddim yn gwybod | 1 |


Sampl: Pob ymatebydd (1,006 ym mis Mehefin 2018)
(a) Mae'n bosibl na fydd y cyfanswm yn dod i union 100 y cant oherwydd talgrynnu.

6.5 Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn yr ymwybyddiaeth o'r ffaith y bydd Llywodraeth Cymru yn gallu gosod cyfraddau treth incwm gwahanol yng Nghymru

yn ôl oedran, grŵp economaidd-gymdeithasol a rhanbarth. Roedd yr ymwybyddiaeth yn uchel ymhlith ymatebwyr:

- 55+ oed, gydag oddeutu traean o'r rhain (34 y cant) yn ymwybodol, o'u cymharu ag un rhan o bump (20 y cant) o bobl rhwng 35 a 54 oed ac 14 y cant o bobl rhwng 16 a 34;
- o grwpiau economaidd-gymdeithasol ABC1 (30 y cant), o'u cymharu â 18 y cant o ymatebwyr C2DE; ac
- sy'n byw yng Nghaerdydd a de-ddwyrain Cymru (30 y cant), gyda'r gyfran isaf (17 y cant) yn y Cymoedd (Ffigur 11).

**Ffigur 11: Ymwybyddiaeth o'r ffaith y bydd Llywodraeth Cymru yn gallu gosod cyfraddau treth incwm gwahanol yng Nghymru o fis Ebrill 2019 ymlaen, yn ôl rhanbarth (%)**




Sampl: Pob ymatebydd (1,006 ym mis Mehefin 2018)

6.6 O'r rhai hynny a oedd yn ymwybodol o'r ffaith y bydd Llywodraeth Cymru yn gallu gosod cyfraddau treth incwm gwahanol o fis Ebrill 2019 ymlaen, dywedodd chwech o bob deg ohonynt (57 y cant) eu bod wedi dod yn ymwybodol drwy'r teledu, a dywedodd un o bob pump ohonynt eu bod wedi darganfod hyn 'ar lafar' neu fod rhywun wedi dweud wrthynt (Tabl 3).

**Tabl 3: Sut wnaethoch chi ddod yn ymwybodol o'r ffaith y bydd Llywodraeth Cymru yn gallu gosod cyfraddau treth incwm gwahanol?**

| Ymateb | Canran o ymatebwyr [a] |
|---|---|
| Teledu | 57 |
| Ar lafar / dywedodd rhywun wrthyf | 20 |
| Radio | 13 |
| **Ymatebion eraill a nodwyd gan lai na 30 o ymatebwyr [b]** | |
| Rhyngrwyd / ar-lein | |
| Papur newydd / cylchgrawn | |
| Y cyfryngau cymdeithasol | |
| Trwy waith | |


Sampl: Ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn ymwybodol o'r ffaith y bydd Llywodraeth Cymru yn gallu gosod cyfraddau treth incwm gwahanol (237 ym mis Mehefin 2018)
(a) Gall y cyfanswm fod dros 100 y cant gan fod ymatebwyr yn gallu dewis mwy nag un ateb.
(b) Cyflwynir yr ymatebion 'eraill' yn nhrefn yr wyddor.

## 7. Treth ar Werth

*Heb ei datganoli*

7.1 Dangosodd dadansoddiad o'r canlyniadau ar gyfer Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016-17 a 2017-18 fod oddeutu wyth o bob deg o'r ymatebwyr wedi dweud yn gywir mai Llywodraeth y DU sydd â’r rheolaeth fwyaf dros osod lefelau TAW yng Nghymru. Gwelwyd ychydig o ostyngiad yng nghyfran y rhai a ddywedodd hyn rhwng 2016-17 a 2017-18 (Ffigur 12), ond nid oedd hyn yn arwyddocaol yn ystadegol.

**Ffigur 12: Yng Nghymru, pwy ydych chi'n meddwl sydd â’r rheolaeth fwyaf dros lefelau TAW?**




Sampl: Ymatebwyr a oedd wedi clywed am TAW (2,407 yn 2016-17 ac 1,722 yn 2017-18).

7.2 Yn 2017-18, roedd gwahaniaethau arwyddocaol yng nghyfran yr ymatebwyr a ddywedodd yn gywir mai Llywodraeth y DU sydd â’r rheolaeth fwyaf dros lefelau TAW yng Nghymru yn ôl oedran a chyrhaeddiad addysgol ond nid yn ôl rhanbarth. Roedd y gyfran a ddywedodd yn gywir mai Llywodraeth y DU sydd â’r rheolaeth fwyaf dros TAW yng Nghymru ar ei huchaf ymhlith y rhai hynny:


- rhwng 35 a 54 oed (86 y cant) a 55+ oed (82 y cant), o'u cymharu â 68 y cant ymhlith pobl rhwng 16 a 34 oed; a

- gyda gradd neu gymhwyster uwch (87 y cant), o'u cymharu â 75 y cant ymhlith y rhai hynny â chymwysterau o dan lefel radd a 73 y cant ymhlith y rhai hynny heb gymwysterau.

7.3 Yn 2017-18, credai 56 y cant o'r ymatebwyr fod gan Lywodraeth Cymru 'ddim rheolaeth o gwbl' dros TAW yng Nghymru, a oedd ychydig yn is na'r ffigur o 61 y cant yn 2016-17.

7.4 Ychydig iawn o ymatebwyr sy'n credu bod gan Lywodraeth Cymru reolaeth 'lwyr' dros osod TAW yng Nghymru, ond mae oddeutu un o bob pump ohonynt yn credu bod ganddi 'rywfaint' o reolaeth (Ffigur 13).

**Ffigur 13: Faint o reolaeth ydych chi'n meddwl sydd gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd dros TAW?**





Sampl: Ymatebwyr a oedd wedi clywed am TAW (2,407 yn 2016-17 ac 1,722 yn 2017-18).

# 8. Y Dreth Gyngor

*Wedi'i gosod gan gynghorau lleol*

8.1 Yn nwy flynedd yr arolwg, dywedodd mwy na phedwar o bob deg o'r ymatebwyr yn gywir mai'r cynghorau lleol sydd â'r rheolaeth fwyaf dros osod lefelau'r Dreth Gyngor yng Nghymru, a dywedodd oddeutu traean ohonynt mai Llywodraeth Cymru oedd â'r rheolaeth fwyaf (Ffigur 14).

**Ffigur 14: Yng Nghymru, pwy ydych chi'n meddwl sydd â'r rheolaeth fwyaf dros lefelau'r Dreth Gyngor?**





Sampl: Ymatebwyr a oedd wedi clywed am y Dreth Gyngor (2,447 yn 2016-17 ac 1,762 yn 2017-18).

8.2 Yn 2017-18, roedd gwahaniaeth arwyddocaol yng nghyfran yr ymatebwyr a ddywedodd yn gywir mai'r cynghorau lleol sydd â'r rheolaeth fwyaf dros lefelau'r Dreth Gyngor yng Nghymru yn ôl cyrhaeddiad addysgol ond <u>nid</u> yn ôl oedran na rhanbarth.

8.3 Roedd y gyfran a ddywedodd yn gywir mai'r cynghorau lleol sydd â'r rheolaeth fwyaf dros lefelau'r Dreth Gyngor yng Nghymru ar ei huchaf ymhlith ymatebwyr â gradd neu gymhwyster uwch (50 y cant), o'u cymharu â 45 y cant ymhlith y rhai hynny heb gymwysterau a 43 y cant ymhlith y rhai hynny â chymhwyster is na lefel radd.

8.4 Yn nwy mlynedd yr arolwg, credai oddeutu chwech o bob deg o'r ymatebwyr fod gan Lywodraeth Cymru 'rywfaint' o reolaeth dros osod a rheoli system y Dreth Gyngor yng Nghymru, a chredai un o bob deg arall fod ganddi reolaeth 'lwyr' (Ffigur 15).

**Ffigur 15: Faint o reolaeth ydych chi'n meddwl sydd gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd dros y Dreth Gyngor?**




Sampl: Ymatebwyr a oedd wedi clywed am y Dreth Gyngor (2,447 yn 2016-17 ac 1,762 yn 2017-18).


## 9. Treth Stamp

*Wedi ei datganoli ers mis Ebrill 2018*

9.1 Gwnaeth cyfran yr ymatebwyr a oedd yn credu mai Llywodraeth y DU oedd â’r rheolaeth fwyaf dros osod lefelau'r Dreth Stamp yng Nghymru ddisgyn yn sylweddol, o 75 y cant i 69 y cant, rhwng 2016-17 a 2017-18.

9.2 Cafodd y gwaith maes ar gyfer arolwg 2017-18 ei wneud ychydig cyn i Lywodraeth Cymru gael pŵer datganoli dros y mater hwn ym mis Ebrill 2018, a allai egluro'r newid hwn (Ffigur 16).

**Ffigur 16: Yng Nghymru, pwy ydych chi'n meddwl sydd â’r rheolaeth fwyaf dros lefelau'r Dreth Stamp?**





Sampl: Ymatebwyr a oedd wedi clywed am y Dreth Stamp (2,053 yn 2016-17 ac 1,458 yn 2017-18).

9.3 Yn 2017-18, roedd gwahaniaethau arwyddocaol yng nghyfran yr ymatebwyr a ddywedodd yn gywir mai Llywodraeth y DU sydd â’r rheolaeth fwyaf dros lefelau'r Dreth Stamp yng Nghymru yn ôl oedran, cyrhaeddiad addysgol a rhanbarth. Roedd y gyfran a ddywedodd yn gywir mai Llywodraeth y DU sydd â’r rheolaeth fwyaf dros lefel y Dreth Stamp yng Nghymru ar ei huchaf ymhlith ymatebwyr:

- rhwng 35 a 54 oed (75 y cant) a 55+ oed (74 y cant), o'u cymharu â 52 y cant ymhlith pobl rhwng 16 a 34 oed;
- gyda gradd neu gymhwyster uwch (73 y cant), o'u cymharu â 67 y cant ymhlith y rhai hynny â chymwysterau o dan lefel radd a 61 y cant ymhlith y rhai hynny heb gymwysterau; ac
- sy'n byw ym Mae Abertawe, gogledd Cymru, a Chaerdydd a de-ddwyrain Cymru (Ffigur 17).


**Ffigur 17: Cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd yn gywir mai Llywodraeth y DU sydd â'r rheolaeth fwyaf dros lefel y Dreth Stamp yng Nghymru, yn ôl rhanbarth (%)**




Sampl: Ymatebwyr a oedd wedi clywed am y Dreth Stamp (1,458 yn 2017-18).

9.4 Rhwng 2017–18 a 2018-19, gwnaeth cyfran yr ymatebwyr a gredai fod gan Lywodraeth Cymru 'ddim rheolaeth o gwbl' dros y Dreth Stamp ostwng yn sylweddol, o 55 y cant i 46 y cant (Ffigur 18).

**Ffigur 18: Faint o reolaeth ydych chi'n meddwl sydd gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd dros y Dreth Stamp?**





Sampl: Ymatebwyr a oedd wedi clywed am y Dreth Stamp (2,053 yn 2016-17 ac 1,458 yn 2017-18).

## 10. Treth ar alcohol

*Heb ei datganoli*

10.1 Rhwng 2016-17 a 2017-18, gwnaeth cyfran yr ymatebwyr a gredai mai Llywodraeth y DU oedd â’r rheolaeth fwyaf dros osod lefelau'r dreth ar alcohol yng Nghymru ostwng rhywfaint, o 84 y cant i 81 y cant (Ffigur 19), ond nid oedd hyn yn arwyddocaol yn ystadegol.

**Ffigur 19: Yng Nghymru, pwy ydych chi'n meddwl sydd â’r rheolaeth fwyaf dros lefelau'r dreth ar alcohol?**





Sampl: Ymatebwyr a oedd wedi clywed am dreth ar alcohol (2,037 yn 2016-17 ac 1,483 yn 2017-18).

10.2 Yn 2017-18, roedd gwahaniaethau arwyddocaol yng nghyfran yr ymatebwyr a ddywedodd yn gywir mai Llywodraeth y DU sydd â’r rheolaeth fwyaf dros lefelau'r dreth ar alcohol yng Nghymru yn ôl oedran, cyrhaeddiad addysgol a rhanbarth. Roedd y gyfran a ddywedodd yn gywir mai Llywodraeth y DU sydd â’r rheolaeth fwyaf dros lefel y dreth ar alcohol yng Nghymru ar ei huchaf ymhlith ymatebwyr:

- rhwng 35 a 54 oed (87 y cant), o'u cymharu ag 80 y cant ymhlith pobl 55+ oed a 77 y cant ymhlith pobl rhwng 16 a 34 oed;

- gyda gradd neu gymhwyster uwch (87 y cant), o'u cymharu â 78 y cant ymhlith y rhai hynny â chymwysterau is na lefel radd, a 74 y cant ymhlith y rhai hynny heb gymwysterau;  ac
- sy'n byw yng Nghaerdydd a de-ddwyrain Cymru (87 y cant), gyda'r gyfran isaf (78 y cant) yng nghanolbarth a gorllewin Cymru (Ffigur 20).

**Ffigur 20: Cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd yn gywir mai Llywodraeth y DU sydd â'r rheolaeth fwyaf dros lefelau'r dreth ar alcohol yng Nghymru, yn ôl rhanbarth (%)**





Sampl: Ymatebwyr a oedd wedi clywed am dreth ar alcohol (1,483 yn 2017-18).

10.3 Rhwng 2016-17 a 2017-18, gwnaeth cyfran yr ymatebwyr a gredai fod gan Lywodraeth Cymru 'ddim rheolaeth o gwbl' dros dreth ar alcohol ostwng yn sylweddol, o 65 y cant i 58 y cant (Ffigur 21).  Mae'r gostyngiad hwn yn codi cwestiwn ynglŷn ag a wnaeth cyhoeddusrwydd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018[8] ddylanwadu ar newid safbwynt, er nad yw'n dreth.

[8] Gweler Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018

**Ffigur 21: Faint o reolaeth ydych chi'n meddwl sydd gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd dros dreth ar alcohol?**





Sampl: Ymatebwyr a oedd wedi clywed am dreth ar alcohol (2,037 yn 2016-17 ac 1,483 yn 2017-18).

## 11. Treth ar deithiau awyr

*Heb ei datganoli*

11.1 Yn nwy flynedd yr arolwg, dywedodd oddeutu hanner yr ymatebwyr yn gywir mai Llywodraeth y DU oedd â’r rheolaeth fwyaf dros osod lefelau'r dreth ar deithiau awyr o Gymru (Ffigur 22). Fodd bynnag, credai mwy na thraean o'r ymatebwyr yn nwy flynedd yr arolwg mai Llywodraeth Cymru oedd â’r rheolaeth fwyaf.

**Ffigur 22: Yng Nghymru, pwy ydych chi'n meddwl sydd â’r rheolaeth fwyaf dros lefelau'r dreth ar deithiau awyr?**





Sampl: Ymatebwyr a oedd wedi clywed am dreth ar deithiau awyr (1,319 yn 2016-17 ac 851 yn 2017-18).

11.2 Yn 2017-18, nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol yng nghyfran yr ymatebwyr a ddywedodd yn gywir mai Llywodraeth y DU sydd â’r rheolaeth fwyaf dros lefelau'r dreth ar deithiau awyr o Gymru yn ôl oedran, cyrhaeddiad addysgol na rhanbarth.

11.3 Yn nwy mlynedd yr arolwg, credai bron i hanner yr ymatebwyr fod gan Lywodraeth Cymru 'rywfaint' o reolaeth neu reolaeth 'lwyr' dros dreth ar deithiau awyr, a chredai oddeutu tri o bob deg ohonynt fod gan Lywodraeth Cymru 'ddim rheolaeth o gwbl' (Ffigur 23).

**Ffigur 23: Faint o reolaeth ydych chi'n meddwl sydd gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd dros dreth ar deithiau awyr o Gymru?**




Sampl: Ymatebwyr a oedd wedi clywed am dreth ar deithiau awyr (1,319 yn 2016-17 ac 851 yn 2017-18).


## 12. Treth ar y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi yng Nghymru

*Wedi ei datganoli ers mis Ebrill 2018*

12.1 Yn nwy mlynedd yr arolwg, gwelwyd rhaniad sylweddol rhwng yr atebion a ddarparwyd gan ymatebwyr ynghylch pwy oeddent yn credu oedd â’r rheolaeth fwyaf dros osod lefelau'r dreth ar y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi yng Nghymru, gydag oddeutu traean ohonynt yn dweud yn gywir mai Llywodraeth y DU oedd â’r rheolaeth fwyaf a bron i bedwar o bob deg ohonynt yn dweud Llywodraeth Cymru (Ffigur 24).

12.2 Dylid nodi y cafodd y gwaith maes ar gyfer arolwg 2017-18 ei wneud ychydig cyn y datganolwyd y dreth ar y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi yng Nghymru ym mis Ebrill 2018.

**Ffigur 24: Yng Nghymru, pwy ydych chi'n meddwl sydd â’r rheolaeth fwyaf dros lefelau'r dreth dirlenwi?**





Sampl: Ymatebwyr a oedd wedi clywed am dreth ar wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi (1,179 yn 2016-17 ac 762 yn 2017-18).

12.3 Yn 2017-18, roedd gwahaniaeth arwyddocaol yng nghyfran yr ymatebwyr a ddywedodd yn gywir mai Llywodraeth y DU sydd â’r rheolaeth fwyaf dros lefelau'r dreth ar y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi yng Nghymru yn ôl oedran ond nid yn ôl cyrhaeddiad addysgol na rhanbarth.

12.4 Roedd y gyfran a ddywedodd yn gywir mai Llywodraeth y DU sydd â’r rheolaeth fwyaf dros dreth ar y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi yng Nghymru ar ei huchaf ymhlith pobl rhwng 35 a 54 oed (39 y cant), o'u cymharu â 30 y cant ymhlith pobl 55+ oed a 28 y cant ymhlith pobl rhwng 16 a 34 oed.

12.5 Credai oddeutu dwy ran o dair o'r ymatebwyr yn nwy mlynedd yr arolwg fod gan Lywodraeth Cymru 'rywfaint' o reolaeth neu reolaeth 'lwyr' dros y dreth dirlenwi yng Nghymru (Ffigur 25).

**Ffigur 25: Faint o reolaeth ydych chi'n meddwl sydd gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd dros dreth ar y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi yng Nghymru?**




Sampl: Ymatebwyr a oedd wedi clywed am dreth ar wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi (1,179 yn 2016-17 a 762 yn 2017-18).

## 13. Cysylltiad rhwng refeniw trethi a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru

13.1 Gofynnwyd i ymatebwyr Arolwg Omnibws Cymru faint o'r arian a godir o drethi yng Nghymru y byddent yn disgwyl ei weld yn mynd tuag at wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru (fel ysgolion, ysbytai a gwasanaethau eraill).

13.2 Credai 72 y cant ohonynt i gyd y byddai 'y cyfan ohono' neu'r 'rhan fwyaf ohono' yn mynd tuag at wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, a chredai chwarter ohonynt y byddai 'rhywfaint ohono' yn mynd tuag atynt (Tabl 4).

**Tabl 4: Faint o'r arian a godir o drethi yng Nghymru y byddech chi'n disgwyl ei weld yn mynd tuag at wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru (fel ysgolion, ysbytai a gwasanaethau eraill)?**


| **Ymateb** | **Canran o ymatebwyr** [a] |
|---|---:|
| Y cyfan ohono | 29 |
| Y rhan fwyaf ohono | 43 |
| Rhywfaint ohono | 25 |
| Dim rhan ohono | 1 |
| *Ddim yn gwybod* | *3* |

Sampl: Pob ymatebydd (1,006 ym mis Mehefin 2018)
(a) Mae'n bosibl na fydd y cyfanswm yn dod i union 100 y cant oherwydd talgrynnu

13.3 Gwelwyd gwahaniaethau arwyddocaol yng nghyfran yr ymatebwyr a ddywedodd yn gywir y byddai'r holl arian a godir o drethi yng Nghymru yn mynd tuag at wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn ôl oedran a rhanbarth ond nid yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol. Roedd y gyfran a ddywedodd yn gywir fod yr holl arian a godir o drethi yng Nghymru yn mynd tuag at wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ar ei huchaf ymhlith y rhai hynny:

- rhwng 35 a 54 oed (33 y cant) a 55+ oed (30 y cant), o'u cymharu â 23 y cant ymhlith pobl rhwng 16 a 34 oed; ac
- sy'n byw yng Nghaerdydd a de-ddwyrain Cymru (34 y cant), gyda'r gyfran isaf (22 y cant) yng ngogledd Cymru (Ffigur 26).

**Ffigur 26: Yn ymwybodol fod yr holl arian a godir o drethi yng Nghymru yn mynd tuag at wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru (%)**




Sampl: Pob ymatebydd (1,006 ym mis Mehefin 2018)

# 14. Atodiad A: Methodoleg

## Arolwg Cenedlaethol Cymru

14.1 Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn cynnwys cyfweliadau wyneb yn wyneb â sampl gynrychiadol o thua 11,000 o oedolion 16 oed ac yn hŷn bob blwyddyn, a chaiff ei gynnal drwy gydol y flwyddyn.

14.2 Bob blwyddyn, caiff sampl o gyfeiriadau ei chasglu ar hap o restr gyfeiriadau'r Post Brenhinol. Caiff cyfweliadau arolwg eu cynnal wyneb yn wyneb wedyn gydag un oedolyn detholedig o bob aelwyd a ddewisir ar hap. Ni chaniateir newid cyfeiriadau nac unigolion.

14.3 Mae'r sampl ym mhob awdurdod lleol yn gymesur â maint poblogaeth yr awdurdod lleol yn fras, gyda maint sampl effeithiol lleiaf o 250 yn yr awdurdodau llai o faint a maint sampl effeithiol o 750 ym Mhowys. Caiff y canlyniadau eu pwysoli er mwyn cynrychioli'r boblogaeth o oedolion yng Nghymru.

14.4 Cafodd y gwaith maes ar gyfer Arolwg Cenedlaethol Cymru ei gyflawni gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

14.5 Gofynnwyd cwestiynau ar ddatganoli trethi i is-sampl o 2,544 o ymatebwyr yn 2016-17 ac 1,856 o ymatebwyr yn 2017-18.

## Arolwg Omnibws Cymru

14.6 Dyluniwyd Arolwg Omnibws Cymru i gynrychioli poblogaeth y preswylwyr yng Nghymru sy'n 16 mlwydd oed ac yn hŷn. Cynhelir yr arolygon bedair gwaith y flwyddyn – ym mis Mawrth, mis Mehefin, mis Medi a mis Tachwedd – a defnyddir sampl o'r newydd bob tro. Yr uned samplu yw Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is, a dewisir 69 o bwyntiau cyfweld ledled Cymru sy'n debygol o fod â thebygolrwydd sy'n gymesur â phoblogaeth y preswylwyr, ar ôl eu haenu yn ôl awdurdod unedol a grŵp cymdeithasol.

14.7 Ym mhob pwynt samplu, defnyddir rheoliadau cwota demograffig o oedran a dosbarth cymdeithasol o fewn y rhywiau er mwyn dewis ymatebwyr. Gosodir y cwotâu i ddangos proffil demograffig unigol pob pwynt a ddewisir.

14.8 Mae'r data wedi eu pwysoli yn ôl grŵp oedran o fewn y rhywiau mewn awdurdod unedol er mwyn rhoi'r nifer cywir o achosion o fewn cyfanswm Cymru i bob cell o ganlyniadau Cyfrifiad 2011.

14.9 Caiff sampl newydd o leoliadau cyfweld ac unigolion eu dewis ar gyfer pob arolwg, ac ni chaiff mwy nag un o bob aelwyd ei gyfweld. Cynhelir y cyfweliadau wyneb yn wyneb yng nghartrefi'r ymatebwyr gan ddefnyddio technoleg CAPI (Cyfweliadau Personol â Chymorth Cyfrifiadur).

14.10 Cafodd y gwaith maes ar gyfer arolwg mis Mehefin 2018 ei gyflawni rhwng 4 a 17 Mehefin, a chafodd cyfanswm o 1,006 o gyfweliadau wyneb yn wyneb eu cynnal a'u dadansoddi.

**Samplu cwota cyfrannol**

14.11 Pan gaiff data arolwg ei brofi am arwyddocâd ystadegol, cymerir yn ganiataol fod y sampl a gyflawnir yn cynrychioli hapsampl o'r boblogaeth berthnasol. Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn defnyddio hapsamplu, ac Arolwg Omnibws Cymru yn defnyddio samplu cwota cyfrannol. Mewn gwirionedd, ni ellir pennu arwyddocâd ystadegol gwirioneddol ar gyfer y dull samplu olaf. Felly, mae gwahaniaethau 'arwyddocaol' sy'n seiliedig ar ddata o Arolwg Omnibws Cymru yn cyfeirio at wahaniaeth arwyddocaol ffug-ystadegol ar 95 y cant o'r lefel hyder. Golyga hyn, pe bai'r arolwg yn defnyddio hapsampl, byddai'r debygoliaeth o gael gafael ar y canfyddiad ar hap yn llai nag un mewn 20.

**Dadansoddiad chi-sgwâr**

14.12 Mae'r prawf chi-sgwâr wedi ei ddefnyddio yn y dadansoddiad i bennu a yw'r berthynas a welir rhwng dau newidyn categorïaidd yn y sampl yn debygol o ddangos cysylltiad gwirioneddol yn y boblogaeth (h.y. cyfanswm y boblogaeth o oedolion sy'n preswylio yng Nghymru sy'n 16 oed ac yn hŷn).

## Diffiniad o ranbarthau

14.13 Mae Tabl A.1 isod yn dangos pa awdurdodau unedol yng Nghymru sy'n llunio'r rhanbarthau a ddefnyddiwyd wrth ddadansoddi'r data o Arolwg Cenedlaethol Cymru ac Arolwg Omnibws Cymru.

**Tabl A.1: Diffiniad o ranbarthau**

| Rhanbarth | Awdurdodau unedol |
|---|---|
| Gogledd Cymru | Ynys Môn<br>Gwynedd<br>Conwy<br>Sir Ddinbych<br>Sir y Fflint<br>Wrecsam |
| Canolbarth a gorllewin Cymru | Ceredigion<br>Powys<br>Sir Benfro<br>Sir Gaerfyrddin |
| Bae Abertawe | Abertawe<br>Castell-nedd Port Talbot<br>Pen-y-bont ar Ogwr |
| Y Cymoedd | Rhondda Cynon Taf<br>Merthyr Tudful<br>Caerffili<br>Blaenau Gwent |
| Caerdydd a de-ddwyrain Cymru | Bro Morgannwg<br>Caerdydd<br>Casnewydd<br>Torfaen<br>Sir Fynwy |

### Diffiniad o gyrhaeddiad addysgol

14.14 Mae Tabl A.2. isod yn rhoi diffiniad o'r dosbarthiadau o gyrhaeddiad addysgol a ddefnyddiwyd wrth ddadansoddi'r data o Arolwg Cenedlaethol Cymru.

**Tabl A.2: Diffiniad o gyrhaeddiad addysgol**

| Cyrhaeddiad addysgol | Diffiniad |
|---|---|
| Gradd neu gymhwyster uwch | Gradd ôl-raddedig (e.e. MSc, PhD)<br>Gradd gyntaf (e.e. BA, BSc, B. Ed.) neu gyfwerth |
| Cymhwyster o dan lefel radd | HNC / HND / BTEC Uwch, neu gyfwerth<br>Safon Uwch / Safon UG neu gyfwerth<br>Prentisiaethau masnachol<br>Lefel O / TGAU graddau A-C neu gyfwerth<br>Lefel O / TGAU graddau D-G neu gyfwerth<br>Cymwysterau eraill |
| Dim cymwysterau | Dim cymwysterau |

### Diffiniad o grwpiau economaidd-gymdeithasol

14.15 Mae Tabl A.3 isod yn rhoi diffiniad o'r dosbarthiadau o grwpiau economaidd-gymdeithasol a ddefnyddiwyd wrth ddadansoddi'r data o Arolwg Omnibws Cymru.

**Tabl A.3: Diffiniad o grwpiau economaidd-gymdeithasol**

| Grŵp economaidd-gymdeithasol | Diffiniad |
|---|---|
| **ABC1** | |
| A | Rheoli, gweinyddol neu broffesiynol uchel |
| B | Rheoli, gweinyddol neu broffesiynol canolradd |
| C1 | Goruchwyliol, clerigol a rheoli,<br>gweinyddol neu broffesiynol iau |
| **C2DE** | |
| C2 | Gweithwyr llaw medrus |
| D | Gweithwyr llaw gyda rhywfaint o sgiliau neu heb sgiliau |
| E | Pensiynwyr y wladwriaeth, gweithwyr achlysurol neu ar y radd isaf, pobl ddi-waith gyda budd-daliadau gwladol yn unig |

## 15. Atodiad B: Holiaduron

**Gellir gweld yr holiaduron llawn ar gyfer Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016-17 a 2017-18, gan gynnwys y modiwlau ar ddatganoli trethi, drwy'r dolenni canlynol:**

15.1 Holiadur Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016-17

Holiadur Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016-17

15.2 **Holiadur Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017-18**

Holiadur Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017-18

**Arolwg Omnibws Cymru**

*Roedd y cwestiynau ychwanegol a gomisiynwyd ar gyfer cam mis Mehefin 2018 Arolwg Omnibws Cymru (Beaufort Research Ltd.) fel a ganlyn:*

15.3 C1. A ydych chi'n ymwybodol o'r ffaith y bydd Llywodraeth Cymru yn gallu gosod cyfraddau treth incwm gwahanol yng Nghymru o 6 Ebrill 2019?

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

**OS ATEBWYD 'YDW' YN C1**

15.4 **C2.Sut wnaethoch chi ddod yn ymwybodol o hyn?** Peidiwch ag annog – rhowch god ar gyfer pob peth a nodir

- Rhyngrwyd / ar-lein
- Radio
- Cyfryngau cymdeithasol (Facebook, Twitter ac ati)
- Teledu
- Ar lafar / dywedodd rhywun wrthyf
- Arall (nodwch) ______________
- Ddim yn gwybod

**GOFYNNWCH I BAWB**

15.5 C3. A ydych chi'n ymwybodol fod Llywodraeth Cymru eisoes yn gosod rhai trethi yng Nghymru, sef y Dreth Trafodiadau Tir (Treth Dir y Dreth Stamp yn Lloegr) a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi (Treth Dirlenwi yn Lloegr)?

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

**Carden Dangos A**

15.6 C4. Faint o'r arian a godir o drethi yng Nghymru y byddech chi'n disgwyl ei weld yn mynd tuag at wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru (fel ysgolion, ysbytai a gwasanaethau eraill)? *Un cod*

- Y cyfan ohono
- Y rhan fwyaf ohono
- Rhywfaint ohono
- Dim rhan ohono
- Ddim yn gwybod

# 16. Atodiad C: Gwybodaeth gefndirol am drethi'r DU a threthi a ddatganolwyd i Gymru

**Treth Incwm**

16.1 O 2019-20 ymlaen, bydd y dreth incwm a delir gan drethdalwyr Cymru yn cael ei datganoli'n rhannol i Lywodraeth Cymru. Bydd hyn yn caniatáu i Lywodraeth Cymru amrywio cyfraddau'r dreth incwm (yn unol â chymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol fel rhan o'i broses gosod cyllideb flynyddol) ym mhob band treth a delir gan drethdalwyr Cymreig neu eu cadw'r un peth â'r cyfraddau treth incwm a delir gan drethdalwyr Lloegr a Gogledd Iwerddon. Bydd y refeniw o'r cyfraddau hyn yn ffurfio rhan o gyllideb Llywodraeth Cymru (Ifan a Poole, 2018). Yn gyffredinol, bydd llawer o'r agweddau ar y dreth incwm yn aros gyda Llywodraeth y DU, a bydd y dreth yn parhau i gael ei chasglu gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi (Llywodraeth Cymru, 2018).

**Treth ar Werth (TAW)**

16.2 Caiff y cyfraddau TAW ar gyfer gwerthu nwyddau a gwasanaethau eu gosod gan Lywodraeth y DU. Y gyfradd safonol o TAW a godir ar y rhan fwyaf o nwyddau a gwasanaethau yw 20 y cant, ond codir cyfradd lai o bump y cant ar rai nwyddau a gwasanaethau, gan gynnwys seddau ceir plant ac ynni cartref.

16.3 Ni chaiff unrhyw TAW ei godi ar rai nwyddau a gwasanaethau, gan gynnwys y rhan fwyaf o fwydydd a dillad plant, ac mae rhai pethau fel stampiau post a thrafodion ariannol ac eiddo'n ddi-dreth.

**Y Dreth Gyngor**

16.4 Mae'r rhan fwyaf o'r agweddau ar y system dreth gyngor wedi eu gweinyddu o fewn Cymru ers datganoli yn 1999. Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am osod, casglu a gorfodi'r dreth gyngor.

16.5 Cyflwynwyd y dreth gyngor yn 1992, ac mae'n daladwy ar bob eiddo domestig, oni bai ei fod wedi ei eithrio. Caiff cyfraddau'r dreth gyngor eu gosod yn flynyddol gan awdurdodau lleol, a chânt eu cyfrifo gan ddefnyddio naw band prisio (bandiau A i I) a osodwyd ar werth eiddo yn ystod 2003. Mae'r dreth gyngor yn dreth hybrid sy'n cynnwys 50 y cant o dreth eiddo a 50 y cant o dreth bersonol.

16.6 Mae bil llawn Treth Gyngor yn seiliedig ar ddau oedolyn o leiaf yn byw mewn eiddo. Yn dibynnu ar nodweddion yr eiddo neu'r aelwyd, gall talwyr biliau fod yn gymwys i gael disgownt neu ostyngiad ar eu biliau, neu, os ydynt yn gymwys i gael eu heithrio, byddant yn cael eu heithrio rhag talu bil y dreth gyngor.

16.7 Mae'n ffurfio rhan annatod o gyllideb y cyngor lleol, a dyma sut mae deiliaid tai'n cyfrannu at wasanaethau'r awdurdod lleol. Yn ystod 2016-17, cododd y dreth gyngor ledled Cymru £2.4 biliwn o ychydig dros 1.3 miliwn o adeiladau (Llywodraeth Cymru, 2018).

**Treth ar alcohol – Treth Alcohol**

16.8 Caiff tollau cartref eu codi ar dri chategori mawr o nwyddau – diodydd alcohol, tybaco a thanwydd ffordd – a Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am y rhain yng Nghymru. At ddibenion trethiant, rhennir diodydd alcoholig yn bum categori: cwrw; seidr a pherai plaen; seidr a pherai pefriol; gwin a gwin-gwneud; gwin a gwin-gwneud pefriol; a gwirodydd. Codir treth ar bob un o'r categorïau hyn ar gyfradd sefydlog – nifer o geiniogau'r litr. Yn achos cwrw a gwirodydd, gosodir cyfradd y dreth mewn perthynas â chryfder yr alcohol. Mae trethi penodol yn cael eu gosod ar win, gwin-gwneud a pherai (h.y. yn ôl cyfaint), ond caiff y cyfraddau treth eu bandio drwy gyfeirio at gryfder yr alcohol (Seely, 2017).

16.9 Yng Nghymru, derbyniodd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 Gydsyniad Brenhinol ym mis Awst 2018. Er y bydd y Ddeddf yn cyflwyno isafbris am werthu a chyflenwi alcohol yng Nghymru, dylid nodi nad yw hwn yn dreth ar alcohol.

**Treth ar deithiau awyr**

16.10 Caiff Toll Teithwyr Awyr ei chodi ar bob taith awyren teithwyr o feysydd awyr yn y DU. Cyflwynwyd y dreth yng Nghyllideb mis Tachwedd 1993 Llywodraeth y DU, a daeth i rym ar 1 Tachwedd 1994. Ers ei chyflwyniad, mae darpariaethau wedi eu gwneud i ddatganoli agweddau ar y Doll Teithwyr Awyr i'r gweinyddiaethau datganoledig yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Llywodraeth y DU sy'n parhau i reoli'r gwaith o osod a chasglu trethi ar deithwyr awyr yng Nghymru.

16.11 Ym mis Chwefror 2015, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai'n ystyried yr achos dros ddatganoli'r Doll Teithwyr Awyr i Lywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth y DU a meysydd awyr rhanbarthol yn ne-orllewin Lloegr wedi lleisio pryderon o ran y ffaith y byddai cyfraddau is ar y Doll Teithwyr Awyr yng Nghymru yn eu rhoi dan anfantais gystadleuol sylweddol. Yn 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddadansoddiad annibynnol newydd o blaid datganoli'r Dreth Teithwyr Awyr i Lywodraeth Cymru. Yn ystod hydref 2018, cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Cymreig ymchwiliad i ddatganoli'r Doll Teithwyr Awyr i Gymru, ac mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb i gefnogi'r achos, ynghyd â chefnogaeth gref unfrydol gan fusnesau yng Nghymru.

**Treth Dirlenwi – Treth Gwarediadau Tirlenwi**

16.12 Cyflwynwyd y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yng Nghymru ar 1 Ebrill 2018, gan ddisodli Treth Dirlenwi Llywodraeth y DU. Diben y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yw lleihau maint y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi. Fe’i telir gan oddeutu 20 o safleoedd tirlenwi ledled Cymru, a rhagwelir y bydd yn creu oddeutu £28 miliwn yn ystod 2018-19 (Prifysgol Bangor, 2017), sy'n golygu mai hon yw'r lleiaf o'r refeniwiau trethi o dan reolaeth Llywodraeth Cymru o bell ffordd (Ifan a Poole, 2018). Bydd y cyfraddau treth is a safonol yn parhau i fod yn gyson â'r cyfraddau yng ngweddill y DU am gyfnod o ddwy flynedd (Llywodraeth Cymru, 2018c).

**Treth Dir y Dreth Stamp – y Dreth Trafodiadau Tir**

16.13 Mae Treth Dir y Dreth Stamp wedi ei disodli gan y Dreth Trafodiadau Tir yng Nghymru ers mis Ebrill 2018. Rhaid talu'r Dreth Trafodiadau Tir pan gaiff adeiladau neu dir eu prynu neu eu prydlesu dros bris penodol. Mae'r ddeddfwriaeth newydd yn gyson â Threth Dir y Dreth Stamp ar y cyfan, ond gall Llywodraeth Cymru bennu'r trothwyon, y bandiau a'r cyfraddau a ddefnyddir. Bydd newidiadau penodol hefyd yn cael eu gwneud i symleiddio'r dreth a'i gwneud hi'n decach, gan wella ei heffeithlonrwydd a'i heffeithiolrwydd, a rhoi mwy o bwyslais ar anghenion a blaenoriaethau Cymru (Llywodraeth Cymru, 2018d).

## 17. Cyfeiriadau


Ifan, G. a Poole, E. G. (2018) *Y Sylfaen Drethu Gymreig: Risgiau a Chyfleoedd ar ôl Datganoli Cyllidol*. Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Llywodraeth y DU (dim dyddiad) *VAT rates*.

Llywodraeth Cymru (2017) Cynllun Gwaith Polisi Treth 2017.

Llywodraeth Cymru (2018a) Cynllun Gwaith Polisi Treth 2018.

Llywodraeth Cymru (2018b). Y Dreth Gyngor.

Llywodraeth Cymru (2018c) Cyfraddau Treth Incwm yng Nghymru – Cwestiynau Cyffredin.

Llywodraeth Cymru (2018d) Treth Gwarediadau Tirlenwi.

Llywodraeth Cymru (2018e) Treth Trafodiadau Tir.

Prifysgol Bangor (2017) Gwaith Craffu a Sicrhau Annibynnol ar Ragolygon Trethi Datganoledig i Gymru. Adroddiad Terfynol: Hydref 2017. Bangor: Prifysgol Bangor.

Revenue Scotland (2017) Air Departure Tax.

Seely, A. (2017) Alcohol taxation and the pub trade. Papur Briffio Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, Rhif 1373. Llundain: Senedd y DU.

Ystadegau ar gyfer Cymru (2018) Arolwg Cenedlaethol Cymru: Prif ganlyniadau, Ebrill 2017 – Mawrth 2018. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.